

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

# BYOD – iOS – Cofrestru Dyfeisiau

Sylwer: Os cewch chi'r neges flocio ganlynol fel y llun ar y chwith, cliciwch continue, yna "GET THE APP' a mynd ymlaen i gam 3.

..... 🗢 🔳



Agorwch yr 'App Store' a geir o fewn y ddewislen ar eich ffôn.



## Cam 2

Dewiswch 'Search' ar waelod y sgrin ar y dde a theipio 'Company Portal' ac yna clicio 'search' ar y bysellfwrdd.



Dewiswch 'Intune Company Portal' ac yna clicio 'Get'.



#### Cam 4

Pan fydd wedi'i osod, agorwch yr 'Intune Company Portal', a chlicio 'Sign in'.



Teipiwch eich cyfeiriad e-bost prifysgol, clicio 'Next' ac yna eich cyfrinair a chlicio 'Sign in'.



## Cam 6

Cadarnhewch y neges ddilysu MFA



Galluogwch hysbysiadau drwy glicio 'OK' ac yna 'Allow'.





## Cam 8

Cliciwch 'Begin' i ddechrau'r broses osod.



Os nad yw '**Microsoft Authenticator**' wedi'i osod ar eich dyfais yn barod, cliciwch '**Install** from App Store' ac yna clicio '**Get**'.





#### Cam 10

Ewch yn ôl i'r '**Company Portal**' ac yna fe welwch y sgrin isod. Os gwelwch chi'n sgrin isod gydag un tic gwyrdd, cliciwch '**Continue**'.



Cadarnhewch eich bod yn hapus gyda'r data mae'r brifysgol yn **gallu** a **ddim yn gallu** eu gweld drwy glicio '**Continue**'.



#### Cam 12

Bellach fe ddylech weld **dau dic gwyrdd.** Cliciwch '**Continue'** i fynd ymlaen i gam nesaf y broses gofrestru, sef lawrlwytho'r proffil rheoli.



Cliciwch '**Allow**' fel y gellir dechrau lawrlwytho'r proffil rheoli. Pan fydd wedi'i lawrlwytho fe gewch hysbysiad i gadarnhau bod y proffil wedi cael ei lawrlwytho ac yna gallwch glicio '**Close**'.





### Cam 14

Cliciwch '**Continue**' i fynd yn ôl i'r rhestr wirio ac yna clicio '**Continue**' eto i osod y proffil rheoli a lawrlwythwyd.



19 <b>8</b>	5:03 Prifyagol Cymeu y Orrdod Daw Bar University of Wales Treaty Save David	200				
Se Tr Se	Set up University of Wales Trinity Saint David access Set up your device to access your email, devices, Wi-Fi, and apps for work.					
9-0-0-0-0	Install Mic Review pri Download Install mar Checking	rosoft Authe ivacy inform managemen nagement pr device settir	enticator ation nt profile rofile ngs			
		Continu	ie e			

Nawr fe gewch set o gyfarwyddiadau ar sut i osod y proffil rheoli.



## Cam 16

Ewch i'r ap '**Settings**' ar eich tudalen gartref a dewis '**Enrol in University of Wales Trinity Saint David**'.



Cliciwch 'Enrol my iPhone' a theipio cod mynediad eich ffôn.



#### **Cam 18**

Bydd y broses yn dechrau i'ch mewngofnodi i'ch cyfrif prifysgol. Bydd wedyn yn gofyn am gadarnhad os ydych chi eisiau parhau. Cliciwch '**Continue'**.

15	:03	<b>?</b> 🗖	)
< Ва			
	Sign in to l	<b>Sign in</b> Jniversity of Wales Trinity Saint David	
	Apple ID		
	-		



Teipiwch eich cyfrinair prifysgol a chadarnhau'r neges ddilysu MFA.0}



#### Cam 20

Bydd y proffil rheoli'n **cwblhau'r** mewngofnodi ac yna caiff ei osod yn llwyddiannus fel cyfrif ar eich dyfais.



**Ewch** yn ôl i'r '**Company Portal**' a dylai fod tic gennych erbyn hyn i gadarnhau bod y proffil rheoli wedi'i osod. Cliciwch '**Continue**' i wirio cydymffurfedd y ddyfais. Gall y cam hwn gymryd rhai munudau.



#### Cam 22

**Pan** fydd y gwiriad cydymffurfedd wedi'i gwblhau, fe welwch fod tic gwyrdd wrth bob cam ar y rhestr osod. Cliciwch '**Done**' ac mae eich dyfais bellach wedi'i chofrestru'n llwyddiannus ac yn gallu cael mynediad at ddata corfforaethol.





